Cyngor Sir y Fflint

Gwasanaethau Cymdeithasol

# Siarter Rhianta Corfforaethol

2025-2028



Dewch o hyd i ni ar

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council



# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Beth yw Rhiant Corfforaethol? 4

Pam Siarter - Beth yw ei phwrpas? 4

Egwyddorion ac Addewidion fel Rhieni Corfforaethol 5

Yr Addewid 7

Ein gweledigaeth ar gyfer Rhianta Corfforaethol yn Sir y Fflint 10

Ein Gwerthoedd 11

Ein Hymrwymiadau i Chi 12
Fforwm Gwasanaethau Plant 12
Dyfodol Cadarnhaol 12
Dysgu a Chael Hwyl 14
Gwrando, Clywed a Deall 16
Perthnasoedd Ystyrlon, Hunaniaeth ac Ymdeimlad o Berthyn 19
Diogel a Saff 20
Iechyd Corfforol a Meddyliol y 22

Geirfa / Gwybodaeth bellach 23


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan.

This document is also available in English. See English page on our website.

# Cyflwyniad

## Sarah Grant, Uwch Reolwr y Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir y Fflint

Ein gweledigaeth yw bod Sir y Fflint yn fan lle gall pawb gyflawni eu llawn botensial a byw bywydau iach ac uchelgeisiol. Rydym eisiau i bob plentyn a pherson ifanc fod yn ddiogel, iach a llwyddiannus, gyda gobaith a dyheadau. Mae'r Cyngor yn gweithredu fel Rhiant Corfforaethol ar gyfer pob plentyn yn ein gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal, gan sicrhau'r gofal gorau posibl a'u diogelu. Mae hyn yn fwy na dyletswydd gyfreithiol, mae'n ymwneud â charedigrwydd, gwneud y peth iawn, a darparu cyfleoedd fel y byddem yn eu darparu ar gyfer ein plant ein hunain.

Rydym yn gwybod bod ein plant sy'n derbyn gofal yn wynebu heriau mawr iawn, ac anodd iawn ar brydiau. Rydym eisiau lleihau anghydraddoldebau a'u cefnogi drwy uchafbwyntiau ac isafbwyntiau bywyd fel y gwna pob rhiant da.

Mae ein Siarter Rhianta Corfforaethol yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn a sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud hyn yn iawn ar gyfer ein plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Fel Rhieni Corfforaethol, rydym eisiau'r gorau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal. Mae hyn yn golygu gwneud popeth o fewn ein gallu i roi cartref diogel, saff a chefnogol iddynt lle gallant fagu hyder. Er mwyn eu galluogi i feithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'u teulu, ffrindiau, gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill y gellir ymddiried ynddynt, gan gynnal eu hawliau. Er mwyn iddynt ffynnu gydag iechyd da, i fod yn ddiogel a bodlon, i lwyddo yn yr ysgol ac mewn bywyd.

Mae ein Siarter yn dangos yr ymrwymiadau yr ydym yn eu gwneud a'r llwybrau i sicrhau ein bod yn cydweithio, darparu ac adolygu ein haddewidion. Gyda'n gilydd, rydym yn gweithio i sicrhau bywydau hir, hapus a llawn ar gyfer ein plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan gydweithio i fod yn rhieni gorau a darparu'r gofal a'r gefnogaeth orau posibl. Mae ein Siarter yn dangos ein hymrwymiadau a'n llwybrau i gyflawni ac adolygu ein haddewidion. Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod ein plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn byw'n dda.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Siarter Rhianta Corfforaethol: 'Addewid i Gymru' i wella gwasanaethau plant. Y nod yw sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn gofal yn derbyn cyfleoedd cyfartal, gan barchu eu hawliau a gwrando arnynt. Lluniwyd y fenter gan rai sydd wedi gadael gofal, gan gynnwys y rhai o Sir y Fflint, a Llysgenhadon Ifanc a oedd yn cynrychioli plant â phrofiad o ofal. Mae'r weledigaeth a rennir yn ceisio gwella rolau sefydliadau cyhoeddus fel 'rhieni corfforaethol'.



# Beth yw Rhiant Corfforaethol?

Mae Rhianta Corfforaethol yn golygu fod pawb yn y sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu a gwella bywydau plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i sicrhau fod y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael yr un cyfleoedd a hawliau ag eraill.

# Pam Siarter - Beth yw ei phwrpas?

Siarter yw cyfres o egwyddorion ac addewidion a grëwyd gyda chymorth pobl ifanc sydd wedi derbyn gofal. Mae'n rhoi:

- **Egwyddorion** y dylai'r holl sefydliadau a'u harweinwyr eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau i'r plant a phobl ifanc hyn.
- **Addewidion** y gall unrhyw sefydliad cyhoeddus eu defnyddio wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Mae gan y Siarter 11 o egwyddorion a 9 addewid. Mae'r addewidion hyn yn egluro sut y bydd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu trin, sut y gwrandewir arnynt a'u cynnwys yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r egwyddorion a'r addewidion yn alinio gyda Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Siarter yn annog pob sefydliad cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, y trydydd sector, ac aelodau'r sector preifat, i ddod yn Rhieni Corfforaethol da



# Egwyddorion ac Addewidion fel Rhieni Corfforaethol

**Mae'r Siarter yn nodi 11 egwyddor a rennir ar gyfer Rhianta Corfforaethol:**



**Cydraddoldeb** - Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i fwynhau'r un cyfleoedd bywyd â phob person ifanc arall yng Nghymru.

**Dileu Stigma** - Byddwn yn cydnabod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal am bwy ydyn nhw, nid dim ond yn ôl eu profiad o fod mewn gofal.

**Gyda'n gilydd** – Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i sicrhau bod eu barn, eu teimladau a'u syniadau'n rhan annatod o'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r ffordd maen nhw'n derbyn y gwasanaethau hynny.

**Cymorth** Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn deall eu profiadau, eu hanghenion a/neu'n gallu cael gafael ar wybodaeth a hyfforddiant.

**Uchelgais** – Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cyrraedd ei botensial ac yn gallu mwynhau profiad eang o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol.

**Anogaeth** Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu, a bod eraill yn malio amdano ac yn ei garu.

**Iechyd da** – Byddwn yn darparu cymorth i gael mynediad at y gofal iechyd a'r cyngor cywir sydd ei angen i gefnogi'r iechyd corfforol, iechyd meddwl a'r llesiant cyffredinol gorau i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.

**Cartref sefydlog** – Byddwn yn chwilio am leoedd sefydlog i fyw sy'n addas i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.

**Addysg dda** – Byddwn yn darparu cyfleoedd a chymorth dysgu a datblygu i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal, a byddwn yn ei helpu i fod yr hyn mae am fod.

**Ffynnu** – Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael ei baratoi ar gyfer y dyfodol ac yn gallu gwneud dewisiadau cadarnhaol ar gyfer byw'n annibynnol a bod yn oedolyn.

**Gydol oes** – Byddwn yn gweithio i ddarparu mynediad at y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ar gael ar ôl gadael gofal, a chodi ymwybyddiaeth o'r rhain.

Mae'r Siarter hefyd yn nodi'r **addewidion** canlynol y dylai'r holl Rieni Corfforaethol eu cyflawni wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal: :

- Byddwn yn ymroi i wrando ar yr holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed a'u hystyried yn llawn wrth i benderfyniadau sy'n effeithio arnynt gael eu gwneud.
- Byddwn yn trin pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal gyda pharch.
- Byddwn yn cynnwys pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt.
- Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am yr hyn sy'n digwydd a pham.
- Byddwn yn defnyddio iaith syml wrth gyfathrebu â phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Byddwn yn dangos cydymdeimlad wrth ystyried anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Byddwn yn gweithio gyda phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal i'w helpu i gyflawni ei nodau.
- Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am y broses o gyflwyno cwyn os ydynt yn teimlo nad ydym yn cadw at y siarter hon.
- Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am yr hawl i gael gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud.



# Yr Addewid

## Rydym yn gwybod ein bod yn rhan o'r teulu mwyaf yng Nghymru!

Drwy lofnodi'r addewid, rydym yn cytuno â'r egwyddorion yn y Siarter a byddwn yn dilyn yr ymddygiadau cyffredin.

Rydym yn addo y bydd popeth a wnawn ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal yn seiliedig ar rymuso, cydraddoldeb, cyfranogiad, atebolrwydd, diogelu ac atal gwahaniaethu. Byddwn yn parchu, amddiffyn a hyrwyddo eich hawliau dynol yn unol â CCUHP.





Ein haddewid yw:

- ✓ Gweithio i ddarparu cynnig gwell o gymorth i chi a'r holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal er mwyn i chi ffynnu a chyflawni eich potensial.
- ✓ Eich helpu i gael mynediad at ein gwasanaethau a gwneud y defnydd gorau ohonynt.
- ✓ Gweithredu er eich lles pennaf a gwneud i chi deimlo'n ddiogel a da yn ein perthynas gyda chi.
- ✓ Eich annog i fynegi eich safbwyntiau, dymuniadau a theimladau a rhoi cefnogaeth i chi i hyrwyddo'r rhain pan fo'r angen.
- ✓ Sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed a'i ystyried ym mhob penderfyniad amdanoch ac egluro pam y gwnaed y penderfyniadau hynny.
- ✓ Darparu gwybodaeth ac adnoddau sydd eu hangen arnoch, mewn ffordd yr ydych yn ei ddeall.
- ✓ Sicrhau ein bod yn atebol i chi am y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud a'r canlyniadau sy'n effeithio ar eich bywyd.
- ✓ Eich helpu i gyflawni eich potensial.
- ✓ Eich paratoi i adael gofal a'ch cefnogi i ffynnu'n annibynnol.
- ✓ Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol yn ystod eu hanwythiad.



# Ein gweledigaeth ar gyfer Rhianta Corfforaethol yn Sir y Fflint

Gyda'n gilydd, byddwn yn creu lle y mae pob plentyn mewn gofal yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hamgylchynu gan gariad, cyfleoedd, a'r gred bod eu breuddwydion yn ddilys a bod modd eu cyflawni.  Pan fyddant yn gadael ein gofal, byddant yn teimlo'n barod a bod cefnogaeth iddynt ar gyfer rhan nesaf eu taith, ac yn profi hapusrwydd a llwyddiant.

Rydym wedi datblygu ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol i ddarparu hyn ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc o dan y themâu canlynol:

1. Dyfodol Cadarnhaol
2. Dysgu a Chael Hwyl
3. Gwrando, Clywed a Deall
4. Perthnasoedd Ystyrlon, Hunaniaeth ac Ymdeimlad o Berthyn
5. Diogel a Saff
6. Iechyd Corfforol a Meddyliol



# Ein Gwerthoedd

I gyflawni ein strategaeth byddwn yn sicrhau bod yr awdurdod lleol a'n holl bartneriaid yn ystyried y gwerthoedd lleol canlynol a fydd yn cyfeirio sut yr ydym yn gweithio i wella canlyniadau, dyheadau a nodau ar gyfer y dyfodol:

**Ymroddedig:**
Rydym wedi ymrwymo i greu lleoedd gofalgar a chefnogol lle y gall plant a phobl ifanc deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu parchu a'u hannog i wneud eu gorau. Bydd yn cymryd amser, ymdrech a'r sgiliau cywir i gefnogi ein holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Byddwn yn gofyn i'n hunain, "A fyddai hyn yn ddigon da i'm plentyn i?"

**Gobeithiol ac Uchelgeisiol:**
Rydym yn credu mewn gobaith ac mae gennym freuddwydion mawr ar gyfer ein plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Dylai'r cynllun hwn eu helpu i deimlo'n bositif am y dyfodol a chredu yn eu hunain. Mae'n golygu gosod nodau uchel ar gyfer pob plentyn a'u helpu i anelu'n uchel a cheisio cyflawni eu breuddwydion gyda hyder. Rydym eisiau rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu, hyfforddi ar gyfer swyddi, a mwynhau gweithgareddau llawn hwyl - er mwyn iddynt weld posibiliadau newydd, goresgyn heriau, a chyflawni eu nodau.



**Parchus:**
Byddwn yn trin pob plentyn a pherson ifanc gyda pharch a charedigrwydd, gan ystyried eu cefndir, profiadau a phwy ydynt. Mae parch yn golygu gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, eu cynnwys mewn penderfyniadau, a dilyn eu dymuniadau, pan fo modd.

**Cyfrifol:**
Bydd y cynllun hwn yn gweithio os yw pawb sydd â chyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol yn cydweithio i gefnogi eu lles. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu nodau.

Fel Cyngor, byddwn yn sicrhau bod gofalu am blant a phobl ifanc yn rhan o sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau, cynllunio gwasanaethau a gwirio am degwch. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ganfod ffyrdd o wneud gwahaniaeth cadarnhaol ac osgoi gwneud rhywbeth a allai niweidio plant yn anfwriadol.

Bydd ein tîm arwain yn sicrhau bod pawb yn y Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb o ddifrif, a byddwn yn annog ein partneriaid i wneud yr un peth.

# Ein Hymrwymiadau i Chi

**Fforwm Gwasanaethau Plant**

Dyma eich "Senedd" lle y gallwch graffu a dwyn yr awdurdod lleol a chyrff eraill i gyfrif er mwyn sicrhau bod y Siarter Rhianta Corfforaethol a'n hymrwymiadau'n cael eu darparu ac yr ymatebir iddynt yn briodol.

Mae aelodau'r Fforwm Gwasanaethau Plant wedi cyfranogi i ddatblygu'r ymrwymiadau yn ein Siarter Rhianta Corfforaethol.

Bydd yr ymrwymiadau isod yn cael eu monitro a'u hadrodd i'r Fforwm Gwasanaethau Plant yn flynyddol.

## Dyfodol Cadarnhaol

**Mae gan ein plant a'n pobl ifanc rywle diogel, sefydlog a gofalgar y gallant fyw yno a'i alw'n gartref.**

**Mae pobl ifanc yn gadael gofal ac yn datblygu i fod yn oedolion annibynnol sy'n ffynnu.**

**Dywedodd y plant a phobl ifanc eu bod eisiau:**

**Rydym eisiau i chi gael gwybodaeth onest a gallu deall ein dewisiadau llety yn 18 oed.**

**Hoffem gael gwell cyfleoedd i gael mynediad at waith, interniaethau a phrofiad gwaith.**

**Rydym eisiau mwy o gyfleoedd i fod yn annibynnol.**

| Ein hymrwymiadau: | Mesur llwyddiant: |
|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda chi i ddeall pa fath o dai sydd eu hangen arnoch a llunio cynllun i'ch cefnogi. Gelwir y cynllun yn Gynllun Llwybr 16+. Mae'n cynnwys eich helpu i gysylltu â'r tîm tai i archwilio gwahanol fathau o lety pan fyddwch yn oedolyn. | % y bobl ifanc gyda Chynllun Llwybr 16+.<br>% y bobl ifanc sydd wedi derbyn llety addas yn 18 oed. |



| Ein hymrwymiadau: | Mesur llwyddiant: |
| --- | --- |
| Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr lleol i'w helpu i deimlo'n hyderus ynglŷn â chyflogi pobl ifanc gyda phrofiad o ofal drwy roi'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt.<br><br>Byddwn hefyd yn annog y cyflogwyr hyn i gynnig profiad gwaith a phrentisiaethau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal neu sydd wedi derbyn gofal.<br><br>Byddwn yn gweithio i greu cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ar gyfer cyfleoedd o fewn Cyngor Sir y Fflint. | % y bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 16+ |
| Byddwn yn sicrhau fod gennych gynllun gofal sy'n eich helpu i dyfu, dod yn fwy annibynnol, a chanolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i chi.<br><br>Bydd pob cynllun yn wahanol ac yn seiliedig ar eich anghenion a'ch nodau chi, ond er enghraifft, gall gynnwys pethau fel cwrdd â ffrindiau, cyrffyw hwyrach, dysgu sut i reoli arian, defnyddio cludiant cyhoeddus, neu ddysgu gyrru. | % y plant a'r bobl ifanc sydd â chynllun gofal sy'n cynnwys trafodaeth am annibyniaeth drwy yrru a chamau gweithredu i gefnogi hyn. |



## Dysgu a Chael Hwyl

Mae plant a phobl ifanc yn cael pob cyfle i gyflawni eu potensial llawn, ennill hyder a sgiliau ar gyfer eu dyfodol.

Mae plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gael hwyl a chymryd rhan mewn gweithgareddau a'r pethau y maent yn eu mwynhau.

**Dywedodd y plant a phobl ifanc eu bod eisiau:**

**Hoffem pe bai ysgolion a lleoliadau dysgu eraill yn darparu person cyswllt er mwyn i ni drafod addysg, dysgu neu unrhyw bryderon eraill.**

**Hoffem mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â Theatr Clwyd.**

**Hoffem ddeall sut y gall y Gwasanaethau Ieuenctid ein cynorthwyo a'n cefnogi.**

| Ein hymrwymiadau: | Mesur llwyddiant: |
|---|---|
| Byddwn yn eich helpu i aros yn yr ysgol drwy sicrhau bod gan ysgolion y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ddeall a gofalu am eich anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl.<br><br>Byddwn hefyd yn annog ysgolion a cholegau i lunio cynlluniau clir sy'n nodi'n benodol sut y byddant yn cefnogi myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal.<br><br>Byddwn yn rhannu rhestr o unigolion cyswllt allweddol ym mhob ysgol, sydd yno i'ch helpu chi. | % y plant gyda lleoliad addysgol addas wedi'i ddyrannu.<br><br>Data presenoldeb a gwaharddiadau.<br><br>Plant a phobl ifanc yn nodi eu bod yn teimlo'n gadarnhaol yn yr ysgol neu'r coleg drwy'r ap Mind of My Own.<br><br>% yr ysgolion sy'n ymgysylltu ag ymagwedd yn seiliedig ar wybodaeth am drawma. |
| Rydym eisiau mwy o bobl ifanc sydd wedi profi gofal i fod mewn addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl cyrraedd 16 oed.<br><br>Rydym yn gwybod bod sawl llwybr yn y byd addysg, a byddwn yn eich helpu i archwilio eich dewisiadau i ganfod beth sy'n gweithio orau i chi - er mwyn i chi barhau i fod wedi'ch ysgogi a chyflawni eich llawn botensial.<br><br>Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn trafod eich gobeithion a'ch nodau yn gynnar yn eich cynllun gofal ac yn rhan allweddol o'ch adolygiadau rheolaidd. | % y bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 16+.<br><br>% y bobl ifanc sy'n derbyn 5 neu fwy o raddau C neu uwch mewn TGAU. |

| Ein hymrwymiadau: | Mesur llwyddiant: |
|---|---|
| Byddwn yn sicrhau y gallwch gymryd rhan mewn diddordebau a gweithgareddau yr ydych yn eu mwynhau, sy'n bwysig i chi, ac sy'n gwneud eich bywyd yn well.<br><br>Byddwn yn archwilio dewisiadau i lunio partneriaeth gyda Gwella a'r Gwasanaethau Ieuenctid i gynnig ystod eang o ddewisiadau ar eich cyfer. | Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn hobi neu weithgaredd yn rheolaidd. |
| Wrth i Theatr Clwyd ailagor, byddwn yn ystyried ffyrdd y gallwch gyfranogi.  Gallai hyn gynnwys ymuno â'u rhaglenni dros yr haf, mynd i weld sioeau, neu gael profiad gwaith yno. | Nifer y cyfleoedd sydd ar gael.<br><br>Nifer  y plant a phobl ifanc sydd wedi manteisio ar y cyfleoedd hynny. |
| Byddwn yn eich cefnogi i lunio cysylltiad gyda'r Gwasanaethau Ieuenctid i'ch cefnogi i ddeall a gwneud defnydd o'u gwasanaethau. | Eu presenoldeb yn y Fforwm Gwasanaethau Plant a grwpiau pobl ifanc. |





**Gwrando, Clywed a Deall**

Mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael lleisio eu barn a'u bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi yn y penderfyniadau sy'n cael effaith arnyn nhw.

Mae plant a phobl ifanc yn dweud eu dweud ac yn siapio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu.

**Dywedodd y plant a phobl ifanc eu bod eisiau:**

Cynrychiolwyr sydd wedi cytuno i'r Addewid Rhianta Corfforaethol, i fynychu'r Fforwm Gwasanaethau Plant a'n diweddaru ar eu cynnydd.

Hoffem pe na bai ein hadolygiadau'n cael eu cynnal yn yr ysgol, os oes modd.

| Ein hymrwymiadau: | Mesur llwyddiant: |
|---|---|
| Byddwn yn sicrhau bod eich adolygiadau'n cael eu cynnal mewn lleoliad priodol, gan gadw oddi wrth yr ysgolion. | % y cyfarfodydd adolygu a gynhaliwyd mewn ysgolion, yn gostwng bob blwyddyn. |
| Byddwn yn gwrando ar eich safbwyntiau a'ch barn a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.<br><br>Byddwn yn hyrwyddo ac annog y defnydd o'r ap Mind of My Own, gyda'r holl blant a phobl ifanc. Mae'r ap yn eich galluogi i rannu eich barn a'ch safbwyntiau gyda ni, a bydd y wybodaeth a rennir yn ein helpu i wella'r gefnogaeth yr ydym yn ei gynnig. | % yr Ymarferwyr sy'n defnyddio ap Mind of My Own.<br><br>% y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio ap Mind of My Own.<br><br>% y plant a phobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer cefnogaeth eiriolaeth. |

| Ein hymrwymiadau: | Mesur Llwyddiant: |
|---|---|
| Byddwn yn gwrando ar eich safbwyntiau ac yn sicrhau eu bod yn dylanwadu ar newid mewn ymarfer, gwasanaeth a pholisi. | Byddwn yn adrodd ar "Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni" o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Fforwm Gwasanaethau Plant.<br>Nifer y plant a phobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r Fforwm Gwasanaethau Plant. |
| Byddwn yn archwilio eich canmoliaethau a'ch cwynion, adolygu themâu a sicrhau ein bod yn dysgu o'r pethau rydym wedi'u gwneud yn iawn a lle y gellir gwella. | Nifer y cwynion gan blant a phobl ifanc mewn cyfnod o 12 mis.<br>Nifer y canmoliaethau gan blant a phobl ifanc mewn cyfnod o 12 mis.<br>Dadansoddiad o'r adborth a gafwyd drwy ap Mind of My Own. |





| Perthnasoedd Ystyrlon, Hunaniaeth ac Ymdeimlad o Berthyn |
|---|
| Gall plant a phobl ifanc ddatblygu perthnasoedd dibynadwy â phobl sy'n bwysig iddynt yn eu bywydau.<br>Mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn falch o bwy ydyn nhw. |
| **Dywedodd y plant a phobl ifanc eu bod eisiau:**<br>Dylai bod byw gyda gofalwyr yn ddi-straen, a dylent ddeall ein hanghenion yn well.<br>Rydym eisiau dathlu a chael hwyl yn y digwyddiad Balchder Sir y Fflint. |

| Ein hymrwymiadau: | Mesur llwyddiant: |
|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda chi i greu proffil clir fel bod pawb yn eich adnabod, fel unigolyn, eich anghenion, cryfderau, hoff bethau, cas bethau a dyheadau ar gyfer y dyfodol.<br>Byddwn yn defnyddio eich proffil i gefnogi eich diddordebau a'ch cynorthwyo i ganfod cyfleoedd i ddiwallu eich anghenion, datblygu eich doniau a chyflawni eich nodau.<br>Byddwn yn defnyddio eich proffil i'n helpu i werthfawrogi a pharchu pob rhan o'ch hunaniaeth a galluogi eich gofalwyr i'ch deall yn well. | % y plant a phobl ifanc gyda phroffil personol |
| Byddwn yn eich dathlu chi a'ch llwyddiannau.<br>Byddwn yn clywed gennych, am yr hyn sy'n bwysig i chi yn y Fforwm Gwasanaethau Plant.<br>Byddwn yn cynnal digwyddiad Balchder Sir y Fflint yn flynyddol i'ch dathlu chi a'ch llwyddiannau gyda chi, y cyngor ehangach a phartneriaid allweddol. | Mesurau ansoddol gan gynnwys, tystiolaethau a lluniau gan ein plant a phobl ifanc. |
| Byddwn yn gweithio gyda chi i gwblhau "Stori Bywyd" i'ch helpu i ddeall eich taith i dderbyn gofal, pam ein bod yn rhan o'ch bywyd a rôl ein gwasanaethau rhianta corfforaethol. | % y plant a'r bobl ifanc sydd wedi ymwneud â gwaith "Stori Bywyd". |
| Os ydych chi'n dod o gefndir lleiafrif ethnig, byddwn yn eich cefnogi i ddysgu am eich cefndir, ei ddathlu, a'i wneud yn rhan ohonoch yr ydych yn falch ohono. | Nifer y taliadau gwyliau crefyddol / diwylliannol a roddwyd.<br>Prynu dillad / eitemau gwyliau crefyddol / diwylliannol. |

## Diogel a Saff

Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth a chamfanteisio.

Bydd plant a phobl ifanc yn teimlo'n rhan o'u cymuned.

**Dywedodd y plant a phobl ifanc eu bod eisiau:**

**Mae gennym bryderon o ran camfanteisio ar gyfryngau cymdeithasol, hoffem dderbyn cefnogaeth i ddeall sut y gallwn osgoi cael ein rhoi yn y sefyllfa honno ac os ydym yn wynebu hynny, beth y gallwn ei wneud.**

**Hoffem dderbyn cefnogaeth i gael gwell dealltwriaeth o atal troseddau a sut y gellir osgoi mynd i drafferthion.**

| Ein hymrwymiadau: | Mesur llwyddiant: |
|---|---|
| Byddwn yn rhoi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i chi pan fyddwch ei angen.<br><br>Byddwn yn sicrhau eich bod yn gwybod am y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy eu rhannu mewn ffyrdd sy'n hawdd i chi eu deall a chael mynediad atynt.<br><br>Byddwn hefyd yn diweddaru ein hyfforddiant ar gyfer staff fel eu bod yn gwybod sut i sylwi a delio â phob math o gamfanteisio, gan gynnwys pethau sy'n digwydd ar y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Byddwn yn eich helpu i ddysgu sut i aros yn ddiogel ar-lein drwy roi cyngor a gwybodaeth i chi - gallai hyn fod drwy sesiynau ar-lein neu wyneb yn wyneb, neu drwy rannu dolenni ac adnoddau defnyddiol.<br><br>Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid, fel yr heddlu, i sicrhau pan fydd rhywun yn camfanteisio ar berson ifanc, bod y person ifanc yn cael eu hystyried fel dioddefwr.  Byddwn yn sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth gywir i'w helpu i aros yn ddiogel ac adfer. | Nifer y staff sydd wedi cyflawni hyfforddiant ar gamfanteisio, gan gynnwys ar-lein.<br><br>% y plant a phobl ifanc sydd wedi bod ar goll, yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn.<br><br>% y plant a phobl ifanc sydd wedi'u hadolygu mewn Panel MET fel mewn perygl o fod yn destun camfanteisio / masnachu mewn pobl, yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. |
| Byddwn yn creu cysylltiad gyda'r heddlu yn lleol a chreu gofod diogel lle y gallwch drafod â nhw a rhannu eu safbwyntiau ac adrodd yn ôl. | Eu presenoldeb yn y Fforwm Gwasanaethau Plant a grwpiau pobl ifanc. |

| Ein hymrwymiadau: | Mesur llwyddiant: |
|---|---|
| Bydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rhoi cyfle i chi rannu eich safbwyntiau ar drosedd a diogelwch. Bydd yr hyn yr ydych yn ei rannu'n gymorth i lunio cynlluniau ar gyfer sut mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn gweithio yn y dyfodol. | Nifer y digwyddiadau ymgynghori ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Byddwn yn gweithio i leihau nifer y plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai mewn gofal, sy'n destun y system cyfiawnder ieuenctid. Byddwn yn gwneud hyn drwy gynnig dewisiadau cadarnhaol eraill a'u cefnogi i gadw allan o drafferthion. | Nifer y rhai sy'n destun y System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf, yn lleihau flwyddyn ar ôl blwyddyn. |
| Byddwn yn parhau i dyfu a gwella ein grŵp o Ofalwyr Maeth a Chartrefi Gofal Preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint. Bydd hyn yn helpu mwy o blant i aros neu ddychwelyd i Sir y Fflint - yn agosach at adref - er mwyn iddynt allu aros yn rhan o'u cymuned leol a chadw mewn cysylltiad â'r rhai sy'n bwysig iddynt. | % y plant a phobl ifanc sydd mewn llety y tu allan i Sir y Fflint, yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn.<br><br>Nifer y rhai sydd wedi dychwelyd i fyw yn Sir y Fflint. |



## Iechyd Corfforol a Meddyliol

**Bydd plant a phobl ifanc yn teimlo'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol.**

**Bydd plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog i gael mynediad at y gwasanaethau, gweithgareddau a'r cyfleoedd iechyd, ffitrwydd a lles sydd eu hangen arnynt neu y maent yn dewis eu harchwilio.**

**Dywedodd y plant a phobl ifanc eu bod eisiau:**

**Hoffem dderbyn cefnogaeth gan berson yn y maes iechyd i gael mynediad at Feddygon Teulu a Deintyddion pan fyddwn yn gadael gofal.**

**Hoffem gael gwell mynediad at wasanaethau i gefnogi ein hiechyd meddwl.**

| Ein hymrwymiadau: | Mesur llwyddiant: |
|---|---|
| Os ydych chi'n cytuno, byddwn yn eich helpu i ddeall a rheoli eich teimladau a'ch syniadau. Os ydych chi eisiau cefnogaeth ychwanegol ar gyfer eich iechyd meddwl a'ch lles, byddwn yn eich cefnogi i'w gael.<br><br>Byddwn yn sicrhau bod ein staff yn deall anghenion pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, er mwyn iddynt roi'r amser a'r gofod i chi drafod eich teimladau a pha fath o gefnogaeth yr ydych ei angen.<br><br>Byddwn hefyd yn eich helpu i ddysgu lle y gallwch gael cefnogaeth ar gyfer eich iechyd meddwl a'ch lles. | Nifer yr unigolion ifanc sy'n destun Prosiect RAP (Dychwelyd ac Atal)<br><br>Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn cefnogaeth gan wasanaeth cwnsela yn yr ysgol.<br><br>Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi'u hatgyfeirio i CAHMS. |
| Byddwn yn sicrhau pan fyddwch yn 18 oed ac nad oes angen asesiad iechyd blynyddol arnoch mwyach, eich bod:<br>• wedi cofrestru â Meddyg Teulu<br>• wedi derbyn gwiriad deintyddol ac yn iach o safbwynt deintyddol lle bo modd.<br>• wedi cael prawf llygaid. | % sydd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu<br><br>% sydd wedi cofrestru gyda deintydd<br><br>% sydd wedi derbyn archwiliad deintyddol<br><br>% sydd wedi cael prawf llygaid. |
| Byddwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud dewis da o ran eich iechyd a'ch lles, lle bynnag y bo modd, gan gynnwys Iechyd ac Addysg Rhyw. Mae hyn yn golygu eich bod chi yn gallu dewis pa fath o gefnogaeth sy'n gweithio orau i chi a chael mwy o reolaeth dros eich gofal eich hun. | % y plant sydd â mynediad at wasanaethau Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal.<br><br>% y bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sy'n feichiog yn anfwriadol. |

# Geirfa / Gwybodaeth bellach

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**
Mae'r CCUHP yn cynnwys 54 o erthyglau sy'n nodi hawliau'r plentyn a sut y dylai llywodraethau gydweithio i sicrhau eu bod ar gael i bob plentyn.

O dan delerau'r confensiwn, mae gofyn i lywodraeth ddiwallu anghenion sylfaenol plentyn a'u cynorthwyo i gyflawni eu llawn botensial. Rhan ganolog o hyn yw cydnabod fod gan bob plentyn hawliau sylfaenol.

https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp-hawliau-plant

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, ac er mwyn trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/deddf-sswb/trowsolwgoverview

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**
Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwrpas cyffredin sy'n rhwymol yn gyfreithiol – y saith nod lles - ar gyfer llywodraeth wladol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus eraill a nodir. Mae'n nodi'r ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a nodwyd weithio, a gweithio gyda'n gilydd i wella lles Cymru.

Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, edrych i atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig.

Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi yn awr ac yn y dyfodol.

https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html



